

Uwchsain Aorto-iliac cyn cael Trawsblaniad

Beth yw hwn?

Mae hwn yn sgan uwchsain i edrych ar y pibellau gwaed yn ardal yr abdomen. Byddwn yn edrych ar y rhydweliâu a'r gwythiennau fel rhan o'ch asesiad cyn-llawdriniaeth.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Rydych wedi cael eich atgyfeirio am y sgan hwn oherwydd eich bod yn cael eich ystyried ar gyfer trawsblaniad.

Sut mae'r sgan uwchsain yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Bydd gofyn i chi orwedd ar eich cefn yn ystod y sgan. Byddwn yn gofyn i chi ddangos ardal y stumog a bydd hancesi papur yn cael eu defnyddio i amddiffyn eich dillad. Efallai y bydd y gwyddonydd yn defnyddio rhywfaint o bwysau i helpu gweld y pibellau gwaed yn well, ni ddylai hyn fod yn boenus. Bydd gwyddonydd clinigol (a allai fod yn wryw neu'n fenyw) yn cyflawni ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Bydd y goleuadau'n cael eu gostwng fel bod y gwyddonydd yn gallu gweld y sgrin yn well.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canfyddiadau ac yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y meddyg a ofynnodd am y sgan. Byddwch yn gallu trafod canlyniadau'r archwiliad yn llawn gyda'r tîm atgyfeirio yn ystod eich apwyntiad ffôn/claf allanol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board